OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2495 (Cy. 272)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffordd Ymuno Tua'r De wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *11 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffordd Ymuno Tua'r De wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 11 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r ffordd ymuno tua'r de ar

Gefnffordd yr A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n gwyro oddi ar y ffordd ymuno tua'r gogledd ar yr A40 hyd at y man lle y mae'n uno â’r brif gerbytffordd tua'r de ar yr A449.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Medi 2012

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.